Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad	:	16 Hydref 2008
Presennol	:	Dr. Llion Jones (Cadeirydd), Dr. Pwyll Ap Sion, Mr. Geraint George, Mrs. Bethan Wyn Jones, Miss Sioned Medi Jones, Dr. Gwyn Lewis, Dr. Arne Pommerening, Dr. Robert Pope, Ms. Eileen Tilley, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Mr. Emyr Roberts (Ysgrifennydd).
Ymddiheuriadau	:	Mr. Ifor Gruffudd, Dr. Lowri Hughes, Mrs. Elen Huws, Ms. Meri Huws, Mr. David James, Dr. Dewi Wyn Jones, Mrs. Delyth Murphy, Mrs. Mairwen Owen, Dr. Iestyn Pierce, Mrs. Carys Wyn Roberts, Mrs. Gwerfyl Wyn Roberts, Mr. Wyn Thomas, Dr. Eifiona Thomas Lane, Dr. Catrin Haf Williams, Mrs. Gwenan Williams, Mrs. Gwawr Maelor Williams, Dr. Prysor Williams, Mrs. Cheryl Wright, Dr. Einir Young.

1. MARWOLAETH

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth ddiweddar Dr. Geraint Wyn Jones, cyn-ddarlithydd yn yr Ysgol Addysg, cyn Gyfarwyddwr Canolfan Bedwyr a chyn-gadeirydd yr Ysgol Astudiaethau Trwy'r Gymraeg. Roedd Geraint wedi cyfrannu'n helaeth i'r byd addysg cyfrwng Cymraeg, nid yn unig yn y Brifysgol ond hefyd yng nghyd-destun Cymru gyfan.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2008 fel cofnod cywir.

3. MATERION YN CODI

(i) Eitem 2(i) Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad - Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer
Adroddwyd bod y Cadeirydd a Ms Meri Huws wedi cael cyfarfod adeiladol gyda phennaeth y Coleg a chytunwyd:

- Bydd yr Ysgol yn gwneud cais am Gymrodoriaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2009/10.

- Bydd yr Ysgol yn enwebu dau gynrychiolydd i'r Panel Rhwydwaith Chwaraeon a Hamdden. Roeddent bellach wedi enwebu Sarah Williams a Mr. James Hardy.

- Bydd angen i'r Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad enwebu pencampwr cyfrwng Cymraeg. Cytunwyd i atgoffa'r Coleg o'r angen hwn.

(ii) Eitem 3(3) Y Cynllun Iaith
Adroddwyd y cafwyd lansiad llwyddiannus iawn i'r Cynllun Iaith ym Mehefin gyda nifer fawr o bobl yn bresennol.

(iii) Eitem 3(5) Adroddwyd bod y defnydd o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn darlithoedd a dosbarthiadau yn parhau i ddatblygu gyda'r Ysgol Addysg a'r Ysgol Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol ymhlith yr ysgolion a oedd wedi manteisio arno.

(iv) Eitem 3(a) Adroddwyd bod aelodau staff o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Morgannwg wedi ymuno â'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol ar gyfer y cwrs Dysgu o Bell sy'n rhedeg rhwng Medi – Rhagfyr 2008. Nodwyd y cynhelir cwrs Dysgu o Bell ychwanegol rhwng Ebrill – Mehefin 2009 a fydd eto'n agored i staff o'r sector addysg uwch. Anogwyd pawb i feddwl am gydweithwyr a allai elwa ar y ddarpariaeth.

(v) Eitem 6 Adroddwyd y cafwyd cyfarfod llwyddiannus iawn o'r Fforwm Deiliaid Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau ym Mehefin. Roedd wedi'i gynllunio i ymateb i anghenion y deiliaid eu hunain ac roedd Dr. Gwyn Lewis wedi cytuno cynnal sesiwn gyda'r myfyrwyr yn y cyfarfod nesaf.

(vi) Eitem 11 Adroddwyd bod stondin y Brifysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd wedi bod yn llwyddiant gyda nifer o ddigwyddiadau a lansiadau. Roedd teimlad cryf bod angen i'r stondin barhau yn ei ffurf bresennol ar gyfer y dyfodol.

4. ADRODDIAD TASIG

Yn absenoldeb Ms Meri Huws, cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o drafodaethau'r Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2008.

Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Gweinidog y Cynulliad Jane Hutt wedi sefydlu Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal o dan gadeiryddiaeth yr Athro Robin Williams ac mae'r Athro Colin Baker a'r Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelodau ohono. Bydd 3-4 cyfarfod gyda'r cyntaf ar yr 20fed o Hydref.

Cyd-destun Mewnol

(1) Bydd Ms Meri Huws yn gadael y Brifysgol ar 31 Hydref ac ni fydd penodiad Dirprwy Is-Ganghellor yn ei lle. Bydd yr Is-Ganghellor yn gyfrifol am y portffolio cyfrwng Cymraeg, ac yn cadeirio TASIG ac yn cynrychioli'r sefydliad ar y Grŵp Sector Cyfrwng Cymraeg.
Cytunwyd mynegi pryder na fydd Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg ar yr adeg dyngedfennol yma a chyda'r gwaith yn mynd i gynyddu.

(2) Mae chwech Ysgoloriaeth a thair cymrodoriaeth Cyfrwng Cymraeg wedi'u llenwi ar gyfer 2008/2009. Bydd trefniadau yn symud ymlaen at y rownd nesaf yn 2009/210 a bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn 21 Tachwedd.

(3) Mae gwaith y Paneli Rhwydwaith yn parhau gyda Bangor wedi'i bennu yn brif ddarparwr ym meysydd Gwyddorau Cymdeithas, Cerddoriaeth a Chemeg gyda symiau sylweddol o arian wedi'u neilltuo i lansio Cynlluniau Datblygu yn y meysydd hyn.

5. DYFODOL NEUADD JOHN MORRIS JONES

Adroddwyd bod grŵp wedi cyfarfod i drafod dyfodol Neuadd John Morris Jones. Mae cyflwr gwael yr adeilad presennol yn golygu y bydd yn cau yn y dyfodol ar ddyddiad i'w bennu. Roedd cynrychiolwyr y myfyrwyr yn rhan o'r trafodaethau a chytunwyd dewis Tegfan ar safle'r Ffriddoedd fel Neuadd Gymraeg newydd. Yn ogystal bwriedir defnyddio lloriau ym Mryn Dinas os bydd angen mwy o ystafelloedd. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Grŵp Tasg Neuaddau ac wedyn y Cyngor.

Cytunwyd pwysleisio pwysigrwydd parhad y Neuadd Gymraeg a chadw'r enw a gofynnwyd i'r Cadeirydd drafod y mater ymhellach gyda Mr. Ken Griffith, Pennaeth y Neuaddau. (**Gweithredu: LlJ**)

6. CLORIANNU GWEITHGAREDDAU WYTHNOS Y GLAS 2008/2009

Adroddwyd bod gweithgareddau Wythnos y Glas wedi ceisio adeiladu ar batrwm y llynedd. Paratowyd llyfryn Modiwlau Cymraeg a Dwyieithog Blwyddyn Gyntaf 2008/2009 ar gyfer Wythnos y Glas a chafwyd ffair fodiwlau yn Neuadd JMJ. Bydd angen ystyried darparu llyfryn ar wahân yn y dyfodol ar gyfer modiwlau 2ail a 3edd flwyddyn cyn y cyfnod cyn-gofrestru ac efallai eu cylchredeg ar ffurf electroneg.

Cafwyd dau ddatblygiad newydd eleni sef, bod e-bost wedi'i anfon i bob myfyriwr a oedd wedi cofrestru fel cyfrwng Cymraeg a chafwyd cyflwyniad gan Dr. Lowri Hughes i'r myfyrwyr dyddiol. Bwriedir ffurfioli hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Diolchwyd i Dr Lowri Hughes am ei holl waith yn trefnu a hyrwyddo'r gweithgareddau. Gofynnwyd am syniadau ar gyfer beth arall y gellir ei wneud i hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod yr wythnos groeso.

Awgrymwyd y dylid cael presenoldeb yn Undeb y Myfyrwyr a sefydlu cyswllt gyda'r arweinwyr cyfoed trwy Ms Kim Davies. (**Gweithredu: LlJ**)

7. COFRESTR YMARFERWYR CYFRWNG CYMRAEG

Adroddwyd bod y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yn ceisio cynnal cofrestr o Ymarferwyr Cyfrwng Cymraeg. Roedd y gofrestr bellach yn fyw ar y we ac mae angen i staff Bangor osod eu manylion eu hunain ar y Gofrestr. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr holl staff sydd heb gofrestru. (**Gweithredu: LlJ**)

8. DIOLCH

Nodwyd gan y Cadeirydd fod Ms Meri Huws, Dirprwy Is-Ganghellor, yn ymadael y Brifysgol i'w swydd newydd yn y de ar ddiwedd y mis. Ar ran yr aelodau diolchodd o galon iddi am ei harweiniad o ran hyrwyddo a gweithredu'r strategaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Dymunwyd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 2.15 o'r gloch, dydd Mercher, 28 Ionawr 2009 yn Siambr y Cyngor.